Department for Transport

Ymateb i’r ymgynghoriad

Cwmpas a gweinyddiad y gyfundrefn grant cwch diogelwch dyfrffyrdd mewndirol

Tachwedd 2014

Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi ymroi i ystyried anghenion pobl ddall a rhannol ddall o ran cael mynediad i'r ddogfen hon. Bydd y testun ar gael yn llawn ar wefan yr Adran. Gall unrhyw unigolyn neu sefydliad lawrlwytho a chyfieithu'r testun i'w drosi i ffurfiau hygyrch eraill. Os oes gennych unrhyw anghenion eraill parthed hyn, cysylltwch â'r Adran.

Department for Transport
Great Minster House
33 Horseferry Road
Llundain SW1P 4DR
Ffôn 0300 330 3000
Gwefan www.gov.uk/dft
Ymholiadau cyffredinol: https://forms.dft.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2014

Parha hawlfraint yn y trefniant argraffyddol gyda'r Goron.

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys logos neu ddeunyddiau trydydd parti) yn rhad ac am ddim ar unrhyw fformat neu gyfrwng, dan amodau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence OGL neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Ble rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd â hawlfraint trydedd blaid, bydd rhaid i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Cynnwys

Crynodeb gweithredol 4
Rhyddid Gwybodaeth 5

1. Pa all ymgeisio am gyllid a sut allwn ni sicrhau fod cyllid wedi ei ddyfarnu i'r rhai sy'n gallu gwneud y defnydd gorau ohono? 7

2. A ddylai'r grant fod ar gyfer eitemau cyfalaf, costau gweithredol, neu iawndal am Gostau TAW/Toll Gartref? Sut allwn ni gynnwys cynaliadwyedd derbynwyr? 8

3. Sut allwn ni sicrhau gwerth am arian, a ddylem gynnig cyllid rhannol/ar y cyd yn unig? Pa fesurau ddylem ddefnyddio wrth werthuso ceisiadau? 10

4. A ddylid cynnwys ymroddiad gan y derbyniwr gyda dyfarniadau grant? 12

5. Sut ddylai'r cyllid grant gael ei ddosbarthu i'r cyrff perthnasol? 13

6. Sylwadau eraill 14

Sut i wneud cais am grant? 15

Atodiad B: Rhestr lawn o gwestiynau'r ymgynghoriad 16

Egwyddorion yr ymgynghoriad 17

Crynodeb gweithredol

1. Cynhaliodd y Llywodraeth ymgynghoriad o 1 – 29 Medi 2014, yn ceisio barnau ar gynllun grant newydd ar gyfer cychod diogelwch dyfrffyrdd mewndirol a gyhoeddwyd yn y Gyllideb.

2. Ceisiodd yr ymgynghoriad farnau ar bum maes allweddol gan dderbyn 15 ymateb. Mae'r isod yn rhoi crynodeb o'r barnau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

3. Gan ddefnyddio'r adborth, rydym wedi cynllunio cyfundrefn grantiau a chyhoeddi gwahoddiad i ymgeisio am grant – a gyhoeddwyd ar:

Rhyddid Gwybodaeth

Gellir cyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i’r ymgynghoriad hwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â’r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu’r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Os ydych am i wybodaeth a ddarparwch aros yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol fod yna God Ymarfer dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y mae’n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag o ac sy’n delio â rhwymedigaethau cyfrinachedd, ymysg pethau eraill.

O ganlyniad, byddai’n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam yr ydych yn ystyried fod yr wybodaeth yr ydych wedi darparu i ni yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu’r wybodaeth, byddwn yn cymryd i ystyriaeth eich esboniad, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni ystyrir ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo’i hun, i fod yn rhwymol i’r Adran.

Bydd yr Adran yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a, gan amlaf, bydd hyn yn golygu na ddatgelir eich data personol i drydedd blaid.

1. Pa all ymgeisio am gyllid a sut allwn ni sicrhau fod cyllid wedi ei ddyfarnu i'r rhai sy'n gallu gwneud y defnydd gorau ohono?

1.1 Dywedodd tua 70% o'r ymatebwyr y dylai cyllid grant fod ar gael i sefydliadau elusennol yn unig.

1.2 Dywedodd tua thraean y dylai cydymffurfiad gyda'r Cod Cychod Achub fod yn ffactor wrth ymgeisio am gyllid grant, er bod eraill wedi awgrymu y dylai aelodaeth o unrhyw gofrestr asedau fod yr un mor ddilys.

1.3 Dywedodd dau ymatebydd mai dim ond sefydliadau gyda nifer o flynyddoedd o brofiad ddylai fod yn gymwys i ymgeisio. Teimlai eraill y dylid ffafrio elusennau llai neu'r rhai heb lefelau uchel o gefnogaeth gyhoeddus.

1.4 Teimlai'r rhan fwyaf o ymatebwyr y dylai'r grantiau fod ar gael ar gyfer sefydliadau achub mewndirol a'r glannau ill dau.

1.5 Awgrymwyd aelodaeth o grwpiau achub llifogydd a dŵr lleol/cenedlaethol, fforymau cydnerthedd lleol, Prosiect Gwella Achub Llifogydd Cenedlaethol Defra, ac ymwybyddiaeth o'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl a hyfforddiant a chanllaw cysylltiedig fel meini prawf ar gyfer asesu ceisiadau am gyllid gan ymatebwyr unigol.

2. A ddylai'r grant fod ar gyfer eitemau cyfalaf, costau gweithredol, neu iawndal am Gostau TAW/Toll Gartref? Sut allwn ni gynnwys cynaliadwyedd derbynwyr?

2.1 Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y dylid defnyddio'r grant ar gyfer costau cyfalaf a gweithredol, gyda nifer yn datgan costau yswiriant fel eu gwariant mwyaf.

2.2 Teimlai un ymatebydd bod eitemau cyfalaf mwy (e.e. cychod a cherbydau newydd) yn fwy cynaliadwy gan y byddent yn cael eu defnyddio am nifer o flynyddoedd.

2.3 Teimlai dau ymatebydd y dylai'r grantiau gwmpasu eitemau cyfalaf yn unig ac y dylai sefydliadau allu talu eu costau gweithredu heb gymorth grant.

2.4 Fodd bynnag, teimlai eraill y dylid cynnwys costau gweithredu megis hyfforddiant, yswiriant damweiniau, a chynnal a chadw, trwy'r cynllun grant, ac (yn arbennig parthed hyfforddiant) y dylid cynnwys mwy o gynaliadwyedd.

2.5 Roedd yna awgrym gan un ymatebydd y dylai'r ceisiadau gynnwys amcangyfrif o'r gwelliannau lefel gwasanaeth a gynhyrchwyd gan grant.

2.6 Awgrymodd dau ymatebydd y dylid ariannu eitemau cyfalaf o geisiadau grant yn y flwyddyn ariannol bresennol (2014-15),

gan ganiatáu mwy o amser ar gyfer llunio ceisiadau hyfforddiant a gweithredol yn y blynyddoedd i ddod.

2.7 Roedd dau ymatebydd yn awyddus i hyfforddiant ac eitemau cyfalaf gael eu safoni ar ffurf catalog, neu'n cael eu rhannu rhwng ymgeiswyr (e.e. i ddarparu cronfa ganolog o hyfforddwyr).

2.8 Awgrymodd tri ymatebydd fod y gyfundrefn TAW / trethiant ar gyfer cychod achub a ddefnyddir yn fewndirol ac ar y glannau yn rhy gymhleth i'w datrys neu ad-dalu trwy gynllun grant, ac y dylid adolygu hyn ar wahân. Teimlai dau arall bod angen graddiad sero gwastad ar draws y sector. Datganodd eraill nad oedd y mater hwn o ddiddordeb iddynt.

3. Sut allwn ni sicrhau gwerth am arian, a ddylem gynnig cyllid rhannol/ar y cyd yn unig? Pa fesurau ddylem ddefnyddio wrth werthuso ceisiadau?

3.1 Cytunodd ymatebwyr y dylai effaith ac amcan cyllid grant (o ran gallu sefydliadol a gwella diogelwch) ffurfio rhan o'r broses ymgeisio am grant.

3.2 Roedd y rhan fwyaf yn glir y dylai ceisiadau gynnwys achos busnes ac awgrym clir o gynaliadwyedd hirdymor y prosiect dan sylw.

3.3 Roedd cytundeb cyffredinol gan yr ymatebwyr y dylid darparu cyllid rhannol/ar y cyd i sefydliadau sydd mewn sefyllfa ariannol iach, ond na ddylai hyn fod yr unig opsiwn.

3.4 Roedd y rhestr o fesuriadau a ddarparwyd yn y ddogfen ymgynghori yn bodloni'r ymatebwyr yn gyffredinol. Awgrymodd pedwar y dylid cynnwys lefel darpariaeth sefydliadau sy'n ymgeisio (e.e. 24 awr y dydd, 365 niwrnod y flwyddyn) fel metrig.

3.5 Awgrymodd ymatebion eraill ddefnyddio meini prawf presennol o gronfeydd eraill, megis Prosiect Gwella Achub Llifogydd Defra (a Chysyniad o Weithrediadau), a bod yn rhaid i'r sefydliad gydymffurfio â'r Cod Cychod Achub.

3.6 Dywedodd dau y byddai angen i sefydliadau arddangos dealltwriaeth o, ac effaith ar, yr amgylchedd Argyfyngau Sifil Posibl cenedlaethol.

4. A ddylid cynnwys ymroddiad gan y derbyniwr gyda dyfarniadau grant?

4.1 Teimlai bron yr holl ymatebwyr y dylai unrhyw ddyfarniad grant gynnwys ymroddiadau ar ran yr ymgeisydd. Roedd syniadau yn cynnwys gofyn i dderbynwyr grant:

- aros ar gofrestrau asedau;
- gwblhau hyfforddiant gofynnol;
- arddangos bod y cyllid grant wedi ei ddefnyddio;
- fodloni cytundebau lefel gwasanaeth;
- weithio gydag ymatebwyr “golau glas”;
- gynnal cynlluniau dilyniant busnes;
- ymgysylltu â’r Fforwm Cydnerthedd Lleol a fframweithiau Argyfyngau Sifil Posibl cenedlaethol presennol; a
- bod yn ymroddedig i nodau datganedig diben y grant.

4.2 Teimlai rhai ymatebwyr y dylai ymroddiad derbynnydd y grant ddibynnu ar faint a natur unrhyw ddyfarniad.

5. Sut ddylai'r cyllid grant gael ei ddosbarthu i'r cyrff perthnasol?

5.1 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi proses ymgeisio flynyddol am grant.

6. Sylwadau eraill

6.1 Derbyniwyd nifer fawr o sylwadau pellach, yn adlewyrchu maint, cwmpas ac amrywiaeth helaeth y sefydliadau sy'n ymwneud â'r sector hon. Roedd y rhain yn cynnwys sylwadau ar ofynion yswiriant (damweiniau, atebolrwydd personol, trydydd parti) y sector, yr amrywiaeth helaeth o gychod a ddefnyddir, y lefel uchel o gefnogaeth leol, yn ogystal ag anawsterau presennol y mae rhai o'r sefydliadau yn wynebu wrth ymateb i argyfyngau.

Sut i wneud cais am grant?

Rydym wedi cyhoeddi canllaw ar sut i wneud cais am gyllid grant, a'r amodau perthnasol, ar:
https://www.gov.uk/government/publications/inshore-and-inland-lifeboat-grant-scheme-how-to-apply-2014-to-2015

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r broses ymgeisio am grant, cysylltwch â:

Tom Pullin
Department for Transport, Great Minister House, 33 Horseferry Road, LLUNDAIN, SW1P 4DR
Rhif ffôn: 020 7944 6230
Cyfeiriad e-bost: Maritime@dft.gsi.gov.uk

Atodiad B: Rhestr lawn o gwestiynau’r ymgynghoriad

Cwestiwn 1

- pwy all ymgeisio am gyllid?

Cwestiwn 2

- sut allwn ni sicrhau fod cyllid wedi ei ddyfarnu i’r rhai sy’n gallu gwneud y defnydd gorau ohono?

Cwestiwn 3

- a ddylai’r grant fod ar gyfer eitemau cyfalaf, costau gweithredol, neu iawndal am gostau TAW/Toll Gartref?

Cwestiwn 4

- sut allwn ni gynnwys cynaliadwyedd derbynwyr?

Cwestiwn 5

- sut allwn ni sicrhau gwerth am arian, a ddylem gynnig cyllid rhannol/ar y cyd yn unig?

Cwestiwn 6

- pa fesurau ddylem ddefnyddio wrth werthuso ceisiadau?

Cwestiwn 7

- a ddylid cynnwys ymroddiad gan y derbyniwr gyda dyfarniadau grant?

Cwestiwn 8

- sut ddylai’r cyllid grant gael ei ddosbarthu i’r cyrff perthnasol?

Cwestiwn 9

- unrhyw syniadau a sylwadau pellach yr hoffech eu darparu.

Egwyddorion yr ymgynghoriad

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol ag egwyddorion ymgynghori allweddol y Llywodraeth a restrir isod. Ceir rhagor o wybodaeth ar https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance

Os oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r broses ymgynghori, cysylltwch â:

Cydlynydd yr Ymgynghoriad
Department for Transport
Zone 1/14 Great Minster House
Llundain SW1P 4DR
E-bostconsultation@dft.gsi.gov.uk